# Dillad Newydd



Darllenwch am Ifan a Casi.

*Dw i'n defnyddio cwpons ac arian i brynu bwyd a dillad ond does dim llawer yn y siopau. Does dim llawer o fwyd yn y siopau a does dim llawer o ddillad yn y siopau achos mae'r ffatrïoedd dillad yn gwneud iwnifforms. Felly, dw i'n gwisgo hen ddillad John, fy mrawd mawr.*

23 Mehefin 1942

*Dw i eisiau dillad newydd ond does dim llawer o ddillad yn y siopau. Felly, dw i'n gwisgo hen ddillad Alice, fy chwaer fawr, ac mae Mam yn gwneud dillad i fi hefyd. Mae hi'n torri ei hen ddillad hi i wneud dillad newydd i fi. Weithiau, dw i'n prynu rhywbeth newydd ond rhaid defnyddio cwpons ac arian.*

5 Gorffennaf 1942

Ffeindiwch allan faint o gwpons dillad roedd plant yn cael yn yr Ail Ryfel Byd.

Dychmygwch: Rydych chi'n byw yn yr Ail Ryfel Byd. Beth ydych chi'n mynd i brynu gyda'r cwpons?




| | | | |
|---|---|---|---|
| defnyddio | to use | ffatrïoedd | factories |
| prynu | to buy | fy mrawd mawr | my big brother |
| does dim ... | there isn't / aren't ... | fy chwaer fawr | my big sister |
| llawer | a lot, many | ei hen ddillad hi | her old clothes |
| dychmygwch | imagine | | |